**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**DYDD GWENER, 14 CHWEFROR 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: L.Jones a/ac A.Wingrave

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan a/ac N.Headon

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2019.

3. **CYTUNDEB Â GRŴP TAI COASTAL SY'N GYSYLLTIEDIG Â DATBLYGIAD YNG NGHEFN IARD GWASANAETH BOOTS, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniadau:**

1. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymrwymo i gytundeb â Grŵp Tai Coastal, gan roi caniatâd y cyngor (fel perchennog rhydd-daliad y tir) i Coastal ymrwymo i gytundeb dargyfeirio carthffos Is-adran 185 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 gyda Dŵr Cymru a Gweinidogion Cymru.

2. Bod y cytundeb â Coastal yn gofyn i Coastal indemnio'r cyngor, mewn perthynas â'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau sy'n codi o gytundeb Is-adran 185.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Mae angen gwneud y penderfyniadau fel y gellir datblygu'r tir fel rhan o'r cynlluniau ailddatblygu cyffredinol ar gyfer canol tref Castell-nedd, yn unol â chynigion adfywio'r cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **CYNLLUN DI-WAITH YN Y TYMOR BYR GWEITHFFYRDD+ YN CEFNOGI POBL SY'N WYNEBU'R PERYGL MWYAF O DLODI I GAEL CYFLOGAETH**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cynnig grant o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mewn perthynas â phrosiect Di-waith yn Tymor Byr Gweithffyrdd+.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi prosiect Gweithffyrdd+ i barhau i gyflwyno yn unol â'r cynllun busnes a llythyr cynnig grant Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-2020**

**Penderfyniad:**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **FFORDD DDOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT, CAM 2 - RHAN 1**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo talu symiau iawndal i'r partïon yr effeithiwyd arnynt, fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Talu iawndal o ganlyniad i Gynllun Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **CYNNIG CYFNEWID TIR**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r amodau a thelerau (ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn hysbysebu statudol) cyfnewid tir a chymeradwyo diwygiad i'r cynllun ffiniau ar gyfer y Warchodfa Natur Leol, fel y manylwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mynd i'r afael â thresbasu parhaus a darparu dewis amgen addas a chynnwys tir bioamrywiaeth well yn y Warchodfa Natur Leol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**